PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 19 Mai, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Y Cynghorwyr: G.D.D. Carroll, G.A. Cox, R. Crowley, Mrs. P. Drake, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson, Ms. S. Sivagnanam a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr: L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio) a N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau)

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd Mrs. P. Drake yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 5. YSTYRIAETH O STRWYTHUR UWCH REOLWYR O FEWN Y CYNGOR (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 2020/21 Y 4YDD CHWARTER AC AMSERLEN Y BLAENRAGLEN WAITH FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2021/22 (RG) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B yr adroddiad.

(2) Nodi Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad, yng nghyd-destun cynnwys Blaenraglen Waith Flynyddol Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol 2021/22.

(3) Nodi Blaenraglen Waith y 4ydd Chwarter sydd ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad.

(4) Cymeradwyo Blaenraglen Waith Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad E yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2&3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad, yr atodiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.